MC
MATERION
CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

Mai 2019. Rhifyn 22

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

GÛYL FWYD CASNEWYDD YN DYCHWELYD AM Y 9FED TRO

Bydd Gŵyl Fwyd Casnewydd, un o'r digwyddiadau blynyddol mwyaf a drefnir gan Gyngor Dinas Casnewydd, yn cae ei chynnal ddydd Sadwrn 5 Hydref.

Heidiodd dros 18,000 o bobl i'r ddinas y llynedd i flasu danteithion gan gynhyrchwyr lleol, i wylio arddangosiadau gan gogyddion, i gymryd rhan mewn dosbarthiadau meistr ac i fwynhau adloniant ac awyrgylch yr ŵyl.

Mae'r ÛVyl Fwyd, a gaiff ei chynnal yng nghanol y ddinas, yn denu mwy na 75 cynhyrchydd bwyd a diod, yn amrywio o gynhyrchion llaeth organig i gig penigamp i ddewis cyffrous o gwrw a seidr lleol.

Mae'r ŵyl wedi denu cogyddion campus mewn blynyddoedd blaenorol gan gynnwys Hywel Jones, cogydd seren-Michelin a aned yng Nghasnewydd, Mark Sargeant a Ping Coombs, Larkin Cen a Dale Williams, a gyrhaeddodd rownd derfynol Masterchef, sydd i gyd wedi dangos eu cefnogaeth i'r ddinas a'r digwyddiad.

Ni fyddai'n bosibl cynnal Gŵyl Fwyd Casnewydd heb gefnogaeth noddwyr, cyfeillion a gwirfoddolwyr. Os hoffech fod yn rhan o'r digwyddiad bendigedig hwn yng nghanol y ddinas, gallwch ddysgu mwy yn **www.newportfoodfestival.gov.uk**

GORFODI PARCIO SIFIL

Os parciwch ar linellau melyn dwbl gallwch gael HTC o £70

Mae 1 Gorffennaf 2019 yn ddyddiad pwysig ar galendr Cyngor Dinas Casnewydd – sef y diwrnod y byddwn yn cymryd y cyfrifoldeb dros orfodi parcio sifil (GPS) oddi ar Heddlu Gwent.

Penderfynwyd hyn ym mis Medi 2018 ar ôl iddi ddod yn amlwg bod trigolion am i gamau gael eu cymryd o ran nifer y gyrwyr sy'n dewis anwybyddu rheolau'r ffordd.

Yn y misoedd diwethaf, mae staff y Cyngor wedi bod yn gwirio gorchmynion traffig ddwywaith a sicrhau bod yr arwyddion gorfodi parcio a llinellau melyn sengl a dwbl yn cael eu diweddaru a'u hadnewyddu yn barod ar gyfer y diwrnod mawr.

Mae'r Cyngor hefyd wedi recriwtio tîm o 12 swyddog gorfodi sifil a fydd yn patrolio'r strydoedd trwy'r ddinas i sicrhau nad yw gyrwyr yn torri'r rheolau.

Os gwelir cerbyd wedi ei barcio'n anghyfreithlon, bydd y grym gan y swyddogion i gyflwyno Hysbysiad Tâl Cosb (HTC).

Mae'r cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb dros orfodi parcio sifil gan Heddlu Gwent, a fydd yn ildio eu cyfrifoldeb gorfodi parcio ar 30 Mehefin 2019 a'r Cyngor yn ei gymryd drannoeth. Fodd bynnag, bydd cyfrifoldeb dros orfodi deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â thraffig, yn enwedig o ran troseddau mwy difrifol neu pan fo angen hynny er diogelwch y cyhoedd, yn aros gyda Heddlu Gwent.

Dywedodd llefarydd dros Heddlu Gwent: *"Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yng Nghyngor Dinas Casnewydd i sicrhau bod y ddinas yn lle diogel i weithio a byw ynddo; fodd bynnag nid ni fydd y brif asiantaeth ar gyfer troseddau parcio.*

"Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd gorfodi parcio sifil yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod Lleol, ac y bydd adnodd sylweddol ynghlwm er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol mewn cymunedau."

Mae ymgyrch Gorfodi Parcio Sifil Cyngor Dinas Casnewydd i atgoffa gyrwyr am Reolau'r Ffordd Fawr sy'n ymwneud â pharcio'n cychwyn yn yr wythnosau nesaf gyda'r neges #ParciwchYnlawn.

Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, aelod cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Strydlun:

"Bydd staff fydd yn cyflawni dyletswyddau gorfodi parcio sifil wedi'u hyfforddi'n llawn yn barod ar gyfer y diwrnod mawr. Ac yn ystod y pythefnos cyn i ni gymryd cyfrifoldeb dros Orfodi Parcio Sifil, bydd ein tîm yn cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio i yrwyr sy'n parcio'n anghyfreithlon, ar ôl 1 Gorffennaf bydd hyn yn drosedd a bydd gyrwyr yn wynebu cosb o £70.

"Byddwn yn atgoffa ein preswylwyr yn gyson am ddeddfwriaeth barcio, sydd yn Rheolau'r Ffordd Fawr, yn y misoedd nesaf gyda'n hymgyrch #ParciwchYnlawn.

"Nid oes esgus gan bobl i ddweud nad ydynt yn ymwybodol o'r newid o Heddlu Gwent i Gyngor Dinas Casnewydd."

PROSIECT I HELPU CLEIFION I FYND ADREF

Mae Gartref Gyntaf yn gynllun newydd sy'n dod ag iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn.

Mae'n trawsnewid y ffordd mae pobl yn cael eu hasesu pan fônt yn dod i'r ysbyty am y tro cyntaf.

Mae'r cynllun yn cynnwys naill ai gweithiwr cymdeithasol neu therapydd galwedigaethol yn gweithio gyda staff ysbyty ar wardiau cyn-derbyn yn Ysbytai Royal Gwent a Nevill Hall.

Maent yn nodi cleifion o bob un o'r pum ardal cyngor nad oes angen iddynt gael eu derbyn ond y gallai fod angen gwybodaeth, cyngor a chymorth ychwanegol arnynt er mwyn cael eu rhyddhau.

I lawer o bobl, weithiau mae cael eu derbyn i'r ysbyty yn anochel ond maent yn wynebu trafferth wrth fynd adref ac mae Gartref Gyntaf yn golygu y gall rhai o'r cleifion hyn gael eu rhyddhau i fynd adref yn gyflymach.

HYB I GYNNIG Y CYMORTH IAWN, YN Y LLE IAWN

Mae gwaith ar y gweill i drawsnewid canolfan gymunedol Ringland yn hyb cymdogaeth cyntaf Casnewydd i roi trigolion wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau.

Y llynedd, cytunodd cyngor y ddinas i ddatblygu cysyniad yr hyb i wella ac integreiddio darpariaeth gwasanaethau cymorth.

Dewiswyd Ringland fel y lleoliad cyntaf i dreialu'r model cyn iddo gael ei gyflwyno mewn ardaloedd eraill.

Enillodd y cwmni lleol TPS y contract i adlunio a moderneiddio'r ganolfan gymunedol a fydd yn cynnwys llawer o wasanaethau cymunedol megis Gwaith a Sgiliau, Gwasanaethau Ieuenctid, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau Cryf, Ilyfrgelloedd, Dechrau'n Deg a sefydliadau partner eraill.

Ar hyn o bryd caiff y gwasanaethau hyn eu rheoli o nifer o adeiladau gwahanol ar hyd a lled y ddinas. Wedi cwblhau, caiff y gwasanaethau hyn eu rheoli yn hyb y gymdogaeth ond byddant yn dal i gael eu darparu i drigolion yn Alway, Somerton, Parc Moorland (canolfan gymunedol dwyrain Casnewydd) a St Julians (Canolfan Beaufort).

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Debbie Wilcox: *"Rydym am ddarparu gwasanaethau mewn ffordd lawer mwy effeithiol er lles preswylwyr sydd â'r angen mwyaf am gymorth. Ar hyn o bryd gall hynny olygu mynd i nifer o wahanol safleoedd i dderbyn gwasanaethau neu, o bosib, golli'r cyfle i gael cymorth a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i'w bywydau.*

"Trwy ddod â'r broses o reoli'r gwasanaethau hynny i'r hyb, crëir un man cyswllt i deuluoedd ac unigolion a fydd yn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth iawn yn y lle iawn."

Dywedodd y Cynghorydd David Mayer, aelod cabinet dros y gymuned ac adnoddau:

"Bydd gan Lyfrgell Ringland amgylchedd gwell ac mae partneriaid hefyd yn bwriadu ymuno â ni yn yr hyb. Bydd yn creu siop leol dan yr un to i drigolion a bydd yn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth y mae ei angen arnynt i fyw bywydau llawn.

BREXIT

Does neb a ŵyr eto pa effaith yn union a gaiff Brexit ar bobl sy'n byw yng Nghasnewydd, busnesau sy'n gweithredu yn ein dinas neu ar y gwasanaethau cyhoeddus rydym yn dibynnu arnyn nhw.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cymryd camau ymarferol ac ystyried camau i liniaru'r effaith er mwyn sicrhau parhad darpariaeth gwasanaethau yng Nghasnewydd.

Rydym yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau cyfagos a sefydliadau eraill i sicrhau ein bod yn gwybod am y datblygiadau mwyaf diweddar.

Am y wybodaeth ddiweddaraf ewch i http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Democracy/Brexit.aspx

Defnyddir y peiriant Glutton gan dîm glanhau Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'n gweithredu fel sugnwr enfawr a gall godi sbwriel, dail ac, yn bwysicaf, fonion sigarét o dan feinciau a dodrefn stryd ac o lefydd eraill sy'n anodd eu cyrraedd.

ISETHOLIAD GORLLEWIN CASNEWYDD

Cynhaliwyd yr isetholiad ar gyfer sedd seneddol Gorllewin Casnewydd ddydd Iau 4 Ebrill 2019, yn dilyn marwolaeth yr AS Llafur, Paul Flynn.

Bu cyfrif dros nos yn Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas, Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd.

Cadwyd y sedd gan Lafur gyda Ruth Jones yn cael ei hethol fel yr AS newydd.

Y ganran a bleidleisiodd oedd 37.1.

CARTREFI DIOGEL A THWYM

Gall cartrefi sy'n wag am gyfnod hir leihau nifer y tai sydd ar gael ac achosi problemau i gymdogion felly mae Llywodraeth Cymru am i gynghorau adfer cymaint o eiddo â phosibl i'w defnyddio eto.

O fis Ebrill eleni, nid yw'r Cyngor yn caniatáu gostyngiad ar dreth gyngor sy'n daladwy ar gyfer cartrefi gwag oni bai eu bod yn rhan o un o'r categorïau wedi'u heithrio.

Ond mae yn cynnig benthyciadau di-log i berchenogion i helpu i adfer eiddo gwag i'w defnyddio eto mewn modd buddiol, yn amodol ar feini prawf cymwys.

Mae'r benthyciadau, y gellir eu defnyddio i adfer a gwella eiddo unigol neu newid adeiladau yn nifer o unedau preswyl, yn werth hyd at £25,000 y fflat annibynnol neu dŷ. Caiff pob benthyciwr uchafswm o £250,000, yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.

Yn rhan o'r cynllun diogel a thwym, mae'r Cyngor hefyd yn cynnig benthyciadau di-log i berchenogion tŷ cymwys er mwyn gwneud gwelliannau tŷ hanfodol.

Cynigir benthyciadau rhwng £1,000 a £25,000, gyda chyfnod benthyciad hiraf o bum mlynedd.

Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd gontract gyda Chronfa Fancio Gymunedol Robert Owen i weinyddu'r benthyciadau perchen-feddiannydd er mai'r awdurdod fydd y benthyciwr o hyd.

Mae'r gronfa, a leolir ym Mhowys, yn cynnig cyfleoedd buddsoddi moesegol i fusnesau, elusennau ac awdurdodau lleol ac yn dod â chyllid fforddiadwy i gymunedau lleol.

Am ragor o wybodaeth am fenthyciadau gwelliannau tŷ y Cyngor neu ei strategaeth cartrefi gwag ewch i **www.newport.gov.uk/emptyhomes**

Nid oes gan y Cyngor ei stoc dai ei hun ond mae ganddo bortffolio bach o eiddo wedi'u prydlesu gan berchenogion preifat. Fel arfer tair i bum mlynedd yw hyd y prydlesi a chaiff eiddo eu rheoli'n llawn gan y Cyngor trwy'r cyfnod hwnnw. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn prydlesu i'r Cyngor ffonio 01633 656656 a gofyn am dîm prydlesu'r sector preifat.

LLOCHES NOS YN APELIO AM WIRFODDOLWYR

Yn rhan o'r gwaith i gynorthwyo pobl sy'n cysgu ar y stryd, mae'r cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Eden Gate ar waith ailwampio sylweddol mewn lloches nos sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r elusen wedi bod yn gweithredu lloches nos yn ystod misoedd y gaeaf ers 2009 fel na fydd rhaid i'r bobl fwyaf bregus yn y ddinas gysgu ar y stryd.

Bydd Lloches Nos+ Casnewydd, fel y rhan fwyaf o'r gwasanaethau o'r fath, yn dibynnu ar wirfoddolwyr ac apeliodd Eden Gate i unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu â nhw.

Bydd y gwaith yn cynnwys cynnig croeso cynnes a chyfeillgar yn bennaf i bob un o'r gwesteion.

Am ragor o wybodaeth e-bostiwch info@edengate.org.uk

HER DDARLLEN YR HAF

Ewch ati i gymryd Her Ddarllen yr Haf gyda Llyfrgelloedd Casnewydd. Mae'r Asiantaeth Ddarllen yn gweithio gyda llyfrgelloedd er mwyn annog plant i gynnal eu sgiliau darllen a'u cariad at lyfrau drwy gydol gwyliau'r ysgol. Y thema eleni yw Ras y Gofod, antur arallfydol wedi ei hysbrydoli gan hanner canmlwyddiant y glaniad cyntaf ar y lleuad.

Holwch yn eich llyfrgell leol o ddydd Sadwrn 13 Gorffennaf ac ymunwch â'n teulu arallfydol arbennig, y Rockets, ar antur gyffrous i ddod o hyd i lyfrau sydd wedi'u dwyn gan aliwns drygionus!

Y TÎM SEIBER YN PIGO LAN GWOBR GENEDLAETHOL

Cafodd Prifysgol De Cymru ei henwi'n Brifysgol Seiber y Flwyddyn yng Ngwobrau Seiber Cenedlaethol 2019.

Cyhoeddwyd yn y gwobrau agoriadol a gynhaliwyd fis diwethaf mai Campws Casnewydd Prifysgol De Cymru oedd prifysgol orau'r wlad am ddarparu addysg seiber.

Nod y gwobrau yw cydnabod y rheiny sydd wedi ymrwymo i seiber-arloesi, lleihau troseddau seiber ac amddiffyn dinasyddion ar-lein.

Curodd Prifysgol De Cymru y gystadleuaeth gan Royal Holloway University yn Swydd Gaerloyw, a gyrhaeddodd y rhestr fer hefyd.

Dywedodd Andrew Bellamy, Arweinydd y Cwrs Gwaith Fforensig Cyfrifiadurol: *"Roedd hi'n anrhydedd arbennig i ennill y wobr am Brifysgol Seiber y Flwyddyn yn y Gwobrau Seiber Cenedlaethol cyntaf neithiwr.*

"Mae'n wych bod gwaith seiber Prifysgol De Cymru yn cael ei gydnabod yn genedlaethol gyda'r holl waith yr ydym ni'n ei wneud o ran allgymorth, addysgu arloesol a'n cysylltiadau â'r diwydiant. Mae'r wobr hon yn cydnabod ein gwaith caled a hefyd ymrwymiad ein tîm seiber."

Y gwanwyn diwethaf, dyfarnwyd grant gwerth £2.5 miliwn gan y Loteri Genedlaethol i helpu i ail-gadw, gwella a dathlu Gwastadeddau hanesyddol Gwent.

Ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r rhaglen Gwastadeddau Byw yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol eisoes yn hyrwyddo ac ailgysylltu pobl â'r dreftadaeth, y bywyd gwyllt a'r tirweddau hardd.

Mae cyfres o brojectau wedi eu cynnal, a llawer ohonyn nhw yn cynnwys gwirfoddolwyr, gan helpu i adfer a gwella'r amgylchedd naturiol.

Mae'r rhan fwyaf o Wastadeddau Gwent yn gorwedd yng Nghasnewydd, ond mae darnau yn ymestyn i Gaerdydd a Sir Fynwy, ardaloedd y mae pobl wedi gweithio a byw arnyn nhw ers canrifoedd.

Mae hon yn ardal gymhleth gyda thirwedd unigryw sy'n cwmpasu darnau gwledig a threfol, ac sydd ar lan y môr ac yn cynnig hanes cyfoethog a hafan i fywyd gwyllt a natur.

Arweinir y Bartneriaeth Gwastadeddau Byw gan RSPB Cymru ac mae'n cynnwys tri awdurdod lleol – Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy – Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Archifau Gwent, Buglife Cymru, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Bumblebee, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Amgueddfa Stori Caerdydd a Sustrans.

Mae wedi bod yn gweithio gyda ffermwyr a pherchnogion tir i glirio ffosydd, tocio coed, datblygu safleoedd peillio a hyd yn oed adfer perllannau sy'n cynnwys rhywogaethau gellyg ac afalau unigryw.

Un o'r prif feysydd cynnydd oedd mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a chlirio'r ffosydd draenio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi arwain ar y gwaith hwn gyda'r cynghorau.

Nod arall y rhaglen yw gwella mynediad a dehongli er mwyn helpu trigolion i ailddarganfod yr ased.

Trydydd llinyn, sydd yr un mor bwysig, yw gwella sgiliau a dysgu. Yn ogystal â gweithio i ddarparu adnoddau addysgol i'r holl ysgolion cynradd ar y Gwastadeddau, ceir projectau fel Big Skyes gyda chwmni theatr The Tin Shed, penodwyd hanesydd llafar ac mae digwyddiadau yn cael eu cynnal lle gall pobl ddysgu sgiliau traddodiadol.

I gael gwybod mwy am y rhaglen ewch i **www.livinglevels.org.uk**

GWEITHIO I GADW TIRWEDD UNIGRYW

Cwmni Theatr The Tin Shed yn perfformio Big Skyes

DOD O HYD I GYMORTH GYDA GWEITHGAREDDAU BOB DYDD

Gall trigolion Casnewydd ddefnyddio offer asesu ar-lein i'w helpu i ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am gynnyrch sy'n ei gwneud yn haws cyflawni gweithgareddau bob dydd gartref.

Cynhelir AskSARA gan yr elusen genedlaethol Disabled Living Foundation (DLF) ac mae wedi cael trwydded gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Mae'n rhad ac am ddim ac yn hawdd ei ddefnyddio. Gall gynnig syniadau am ffyrdd o wneud bywyd yn haws, manylion cynhyrchion a all fod o gymorth a ble a phryd i gael gafael arnyn nhw, yn ogystal â manylion cyswllt am ragor o gyngor a chymorth pan fydd angen.

Am ragor o wybodaeth neu i roi cynnig ar yr offer hunan-asesu ewch i **www.newport.gov.uk/cy/Care-Support/Ask-SARA.aspx**

BEICIO CASNEWYDD!

Mae'r cyngor yn ystyried cyflwyno cynllun llogi beiciau ar draws y ddinas a hoffai gael barn trigolion.

Byddai hyn yn cefnogi gwaith y mae'r cyngor yn ei gyflawni i annog rhagor o deithiau cynaliadwy ac i gyfrannu at y broses barhaus o weddnewid Casnewydd yn ddinas fodern, ffyniannus a bywiog.

Er mwyn asesu'r gefnogaeth i'r cynllun ac i nodi lleoliadau ar draws y ddinas, mae'r cyngor yn gofyn i drigolion a chyflogwyr mawr yn ogystal â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddweud eu dweud.

Llenwch yr holiadur byr canlynol ar-lein drwy ddilyn y ddolen isod:

Cymraeg: https://www.surveymonkey.co.uk/r/BeicioCasnewydd

Saesneg: https://www.surveymonkey.co.uk/r/CycleNewport

DAETH YR IAITH GYMRAEG YN FYW TRWY GÂN

Mae pobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg yng Nghasnewydd yn arddangos eu sgiliau iaith mewn cyfres o fideos sydd bellach ar gael ar YouTube.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd a Mudiad Meithrin, y sefydliad gwirfoddol sy'n arbenigo mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, wedi cydweithio i greu rhestr chwarae o wyth fideo.

Mae'r rhain yn dangos plant Mudiad Meithrin ac Ysgol Bro Teyrnon yn canu caneuon Cymraeg syml gydag is-deitlau.

Mae'r gwaith yn rhan o broject Bod yn Ddwyieithog/Becoming Bilingual Casnewydd (www.newport.gov.uk/becomingbilingual/ www.newport.gov.uk/bodynddwyieithog)

Aeth y Cynghorydd Gail Giles, Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd, i'r lansiad: *"Bydd y fideos arloesol hyn yn golygu y bydd caneuon Cymraeg ar gael i bobl gartref i'w dangos i'w plant a chydganu iddynt. Ni waeth a yw plant yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg, byddant yn mwynhau'r caneuon hyn.*

"Mae plant yn cael cychwyn addysgol ardderchog wrth fynychu Mudiad Meithrin yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon. Ac mae'n amlwg eu bod yn hapus ac yn hyderus yn y Gymraeg – iaith y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn ei dysgu am rai misoedd yn unig. Bydd yn eu helpu i ddechrau eu haddysg Gymraeg a dod yn gwbl ddwyieithog, a rhai'n amlieithog, yn y blynyddoedd nesaf."

Bydd pedwaredd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd yn agor ym mis Medi 2020.

Dywedodd Leanne Marsh, Prif Weithredwr Dros Dro Mudiad Meithrin: *"Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i weithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd. Mae'r fideos yn adnodd gwych i hyrwyddo a chyflwyno'r Gymraeg yn y cartref ac i gychwyn y daith ddwyieithog i deuluoedd."*

Gallwch weld y fideos yma https://www.youtube.com/playlist?list=PLTkXQGlCFE4-sd71fijHfln6oTGW53-DN

Y Cynghorydd Gail Giles gyda'r plant ifanc o Fudiad Meithrin ac Ysgol Bro Teyrnon yn lansiad y fideos Cymraeg

MAER NEWYDD AR GYFER 2019/20

Maer newydd Casnewydd am y flwyddyn ddinesig nesaf yw'r Cynghorydd William J Routley, sy'n hoffi cael ei alw'n Wil.

Wedi ei eni yng Nghasnewydd, treuliodd ei flynyddoedd cynnar ym Mhillgwenlli, lle'r oedd ei fam-gu a'i dad-cu yn byw hefyd. Symudodd i Alway, ond ymwelodd â'i fam-gu a'i dad-cu yn aml, gan wneud llawer o ffrindiau yno ac ystyriodd Pillgwenlli yn ail gartref iddo.

Ar ôl gadael Ysgol Uwchradd St Joseph yn 15 oed, gweithiodd ym Mragdy Hancock ac yna yng ngolchdy White Rose ac yn Standard Telephone and Cables.

Wrth ymweld â theulu yn yr Almaen, enillodd rownd glanhau ffenestri mewn gêm gardiau, a daeth yn olchwr ffenestri swyddogol Awyrlu Brüggen.

Ar ddychwelyd i Gasnewydd, daeth yn ddiddanwr teithiol ac yna aeth i Goleg Addysg Uwch Caerllion i astudio materion cymdeithasol ac undeb llafur. Mae'n gweithio i'r GIG ar hyn o bryd.

Mae wedi bod yn Gynghorydd dros Alway, Stow Hill a Langstone.

Y Faeres yw Alison Robbins, partner y Cynghorydd Routley, a nyrs cofrestredig sy'n rheolwr achos gofal iechyd parhaus yn Ysbyty Sant Cadog.

Y dirprwy faer yw'r Cynghorydd Charles Ferris a'r dirprwy faeres yw Caroline Ferris.

RHANDIROEDD

Hoffech chi dyfu eich bwyd eich hun ond heb ddarn addas o dir?

Eisiau gweithio yn yr awyr agored ar eich pen eich hun neu gyda grŵp o deulu a ffrindiau?

Hoffech chi rentu un o'r cannoedd o randiroedd sydd ar gael gan Gyngor Dinas Casnewydd am gyn lleied â £60 y flwyddyn?

Y cyfan sydd angen i chi 'neud yw cysylltu ag ysgrifennydd yr ardal lle yr hoffech fod – ewch i **http://www.newport.gov.uk/cy/Leisure-Tourism/Allotments/Allotments.aspx** am restr o safleoedd ac am ragor o fanylion am sut i fod yn rhandirwr.

PANEL ATAL TROSEDDAU PILLGWENLLI

Mae Panel Atal Troseddau Pillgwenlli wrthi'n recriwtio aelodau newydd.

Grŵp o wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r heddlu i atal trosedd yn eu cymunedau yw'r panel atal troseddau.

Gallai hyn gynnwys helpu i wella diogelwch y cartref, patrolau i nodi dioddefwyr posibl o drosedd, codi ymwybyddiaeth o dechnegau o atal trosedd, cynllun gwylio cyflymder cymunedol ac amrywiaeth o fentrau eraill i helpu preswylwyr i fod yn ddiogel.

Ariennir paneli atal troseddau gan swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent.

Dywedodd Jeff Cuthbert, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu:

"Mae Paneli Atal Troseddau'n gwneud gwaith gwerthfawr iawn yn ein cymunedau, yn gweithio'n galed iawn i helpu i atal trosedd leol ac yn rhoi cymorth i bobl agored i niwed. Dyma gyfle gwych i unrhyw un sydd am wneud gwahaniaeth yn ei gymuned."

Mae aelodau'r panel atal troseddau'n destun gwiriadau dilysu sylfaenol yr heddlu a rhaid iddynt fod yn 18 oed neu hŷn.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **pillcrimepreventionpanel@gmail.com**

STRAEON Y BONT GLUDO



Mae project bellach yn mynd rhagddo i ddod o hyd i drigolion â chysylltiadau â Phont Gludo Casnewydd.

Mae cyfres o fideos 'hanes byw' yn cael eu recordio a byddant yn cael eu rhoi ar sianel YouTube y Cyngor ac ar wefan South Wales Argus.

Y syniad yw dangos i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a ddyrannodd £1 miliwn i broject y Bont Gludo yn 2018, fod y bont â chysylltiadau dwfn â'r boblogaeth leol a bod digon o ddiddordeb a brwdfrydedd i gefnogi'r cais sydd â'r nod o gael £10 miliwn i sicrhau dyfodol y bont, adeiladu canolfan ymwelwyr newydd a thalu am y gwaith drud i gynnal a chadw'r bont sydd bellach yn 113 oed.

Mae tîm y Bont Gludo, sy'n cynnwys swyddogion o'r Cyngor ac aelodau o Gyfeillion Pont Gludo Casnewydd, yn apelio am wybodaeth a ffotograffau i helpu gyda'r project ailddatblygu a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Felly siaradwch â'ch perthnasau, chwiliwch trwy eich albymau ffotograffau ac yna cysylltwch â'r tîm yn transporter.bridge@newport.gov.uk neu drwy gyfryngau cymdeithasol **@NpTBridge**

Mae angen gwirfoddolwyr hefyd. Os ydych yn mwynhau cwrdd â phobl, yn ymddiddori mewn hanes lleol ac yn gallu neilltuo ychydig oriau bob mis, cysylltwch â ni.

CYFLWYNO BINIAU LLAI

Mae llawer o gartrefi ledled y ddinas bellach yn berchen ar fin gwastraff llai wrth i Gyngor Dinas Casnewydd barhau i gyflwyno'r rhaglen hon.

Mae'r cyngor yn gwario oddeutu £2.2m bob blwyddyn yn gwaredu gwastraff – er hynny mae dros hanner cynnwys y biniau gwastraff yn eitemau fyddai'n gallu cael eu hailgylchu'n hawdd, yn wastraff bwyd neu'n wastraff gardd.

Dechreuodd y gwaith o gyflwyno biniau olwynion 120 litr ym mis Ebrill, ac roedd disgwyl iddo bara oddeutu tri mis.

Dywedodd llefarydd ar ran y Cyngor:

"Gwyddom fod Casnewydd eisoes yn un o'r dinasoedd sy'n perfformio orau yn y DU o ran ailgylchu, ond er mwyn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru o 70 y cant - ac er mwyn osgoi dirwyon ariannol sylweddol - mae angen i ni wneud mwy."

Ceir manylion llawn ynghylch pam mae angen gwneud y newidiadau hyn, beth gallwch chi a beth na allwch chi ailgylchu a sut i wneud cais am ragor o gynwysyddion ailgylchu ar **www.newport.gov.uk/recycling** a gwefan Wastesavers, ein partneriaid ailgylchu, **www.wastesavers.co.uk**

DATGELU CYNLLUNIAU'R DDINAS AR GYFER YSGOL GYNRADD GYMRAEG NEWYDD

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer pedwaredd ysgol gynradd Gymraeg yn y ddinas o fis Medi 2020, gan gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd Cymraeg ledled y ddinas gan 50 y cant.

Roedd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor, a gymeradwywyd yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru y llynedd, yn cynnwys ymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth gynradd. Cefnogwyd hyn gan addewid Llywodraeth Cymru am arian cyfalaf.

Bydd bron £6 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn yr ysgol Gymraeg newydd a dwy ysgol arall yng ngorllewin y ddinas.

Cynigir y bydd yr ysgol Gymraeg yn cael ei datblygu ar safle presennol Ysgol Gynradd Pillgwenlli. Ar ôl ailwampiad gwerth £3m, byddai'n ymgartrefu yno ym mis Medi 2022.

Hefyd cynigir y bydd egin ysgol yn cael ei sefydlu o fis Medi 2020 yn yr adeilad babanod gwag yn Caerleon Lodge Hill.

Er mwyn cefnogi'r cynnig uchelgeisiol hwn, byddai Ysgol Gynradd Pillgwenlli yn symud i gyfleusterau newydd ar ddatblygiad Whiteheads yn gynnar yn 2022.

Byddai hyn yn golygu y gallai'r ysgol boblogaidd hon dyfu a chynnig tri dosbarth mynediad. Mae'r ysgol eisoes yn derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae nifer uchel o blant eisoes ar restr aros yr ysgol ar gyfer pob grŵp blwyddyn ac mewn llawer o achosion, mae teuluoedd sy'n byw yn yr ardal yn canfod bod eu plant yn gorfod mynd i ysgolion gwahanol. Byddai'r buddsoddiad hwn yn lleihau nifer y teuluoedd yn y sefyllfa honno.

Byddai arian hefyd yn cael ei fuddsoddi i Ysgol Gynradd Parc Tredegar.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd *"Fe wnaethom ymrwymiad i ehangu a gwella'r cyfleoedd i gael addysg Gymraeg yng Nghasnewydd ac rydym yn gwireddu'r addewid hwnnw.*

"Byddai lleoli'r ysgol newydd ym Mhilgwenlli yn bodloni'r galw yn yr ardal hon yn y ddinas. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau ardderchog o addysg cyfrwng Cymraeg sy'n ffynnu mewn cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, megis Butetown, Caerdydd, ac rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu hyn yng Nghasnewydd. Byddai ehangu Ysgol Gynradd Pillgwenlli hefyd yn amhrisiadwy o ran bodloni anghenion y gymuned leol a gwella addysg a phresenoldeb ar draws y bwrdd."

GEMAU TRAWSBLANNU PRYDAIN WESTFIELD HEALTH 2019

Wrth i Faterion Casnewydd fynd i'r wasg, mae disgwyl i Gemau Trawsblannu Prydain Westfield Health 2019 ddenu 2,500 o gystadleuwyr i'r ddinas o bob rhan o'r DU.

Bydd gwestai'r ddinas dan eu sang yn ystod pedair noson y Gemau, ac heb os nac oni bai, bydd cyfranogwyr a chefnogwyr yn ymweld â bwytai a siopau yn ystod eu hamser rhydd.

Y Gemau yw digwyddiad mwyaf poblogaidd yr elusen, Transplant Sport, a bydd yn cael ei gynnal yng Nghasnewydd rhwng dydd Iau 25 a dydd Sul 28 Gorffennaf. Mae disgwyl i Dîm Cymru fod â'i garfan fwyaf erioed.

Dyma'r ail waith erioed i'r Gemau gael eu cynnal yng Nghymru yn ystod ei hanes 42 mlynedd. Mae croeso i bobl o bob oed a gallu, ac mae'r Gemau'n cynnig rhywbeth i bawb, gan gynnwys snwcer, dartiau, saethyddiaeth a bowls. Gallwch fod yn ddechreuwr a chymryd rhan.

Rhagwelir y bydd graddfa'r effaith economaidd ar ddinas Casnewydd yn £1.5 miliwn ar sail llety, prydau bwyd a gwariant eilradd.

Dywed Andrew Bridge, rheolwr digwyddiadau'r Gemau, bod y ffigwr yn seiliedig ar nifer y cofrestriadau y mae trefnwyr y Gemau'n eu derbyn ar hyn o bryd:

"Agorodd y cyfnod cofrestru ar 1 Mawrth ac erbyn diwedd y mis, derbyniwyd dros 1,500 o gofrestriadau. Mae hynny'n gynnydd o 10% ar y cofrestriadau ar gyfer Gemau Trawsblannu Prydain Westfield Health 2018 yn Birmingham, pan cynyddodd nifer y cyfranogwyr achrededig i 2,750, nifer oedd ei hun yn torri recordiau!"

Bydd y cystadlu'n digwydd mewn lleoliadau chwaraeon ledled y ddinas a bydd cyfle i gymunedau lleol gymryd rhan.

Meddai Mr Bridge:

"Mae disgwyl i'r seremoni agoriadol fod yn ddigwyddiad gwych, a hoffwn wahodd pobl Casnewydd a'r ardaloedd cyfagos i ddod i fod yn rhan ohono. Mae gennym hefyd Râs Rhoddwr ar ddydd Sadwrn 27 Gorffennaf, sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'n ŵyl chwaraeon a bywyd pedwar diwrnod, ac rydym yn annog pawb i ddod draw i gefnogi. Cewch wylio am ddim."

Dywedodd David Nix, llywydd Rhwydwaith Teulu Rhoddwyr y DU:

"Nod y Gemau yw amlygu'r angen i siarad am roi organau, fel bod eich anwyliaid yn hollol ymwybodol o'ch dymuniadau. Mae teuluoedd yn fwy tebygol o gefnogi rhoi organau pan fônt yn gwybod mai dyna yw dymuniad eu perthynas."

Ar 31 Rhagfyr 2018, roedd 232 o gleifion yng Nghymru yn aros am drawsblaniad. Yn ystod tri chwarter cyntaf 2018/19, bu farw 19 claf tra'n aros ar y rhestr aros actif.

Yn ogystal â phrif noddwyr y digwyddiad, Westfield Health, ceir cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Casnewydd, Casnewydd Fyw, byrddau iechyd lleol ledled Cymru, GIG Gwaed a Thrawsblannu, Gofal Arennau DU, Cofrestr Anthony Nolan a Rhwydwaith Teulu Rhoddwyr. Ymhlith noddwyr eraill yr ardal mae Friars Walk, Icon Design, Parêd Rodney a'r Celtic Manor, ac mae'r trefnwyr yn ceisio targedu cyflenwyr lleol i helpu i gynnal y Gemau.

YR ACADEMI FEDDALWEDD GENEDLAETHOL YN CWBLHAU EI BLWYDDYN GYNTAF YNG NGORSAF WYBODAETH CASNEWYDD

Mae Academi Feddalwedd Genedlaethol Prifysgol Caerdydd yn dod i ddiwedd ei blwyddyn academaidd gyntaf yng Ngorsaf Wybodaeth Casnewydd, ar ôl ehangu i mewn i'r adeilad ym mis Medi 2018.

Mae'r adeilad newydd wedi profi'n llwyddiant, gan ddarparu'r amgylchedd delfrydol i fyfyrwyr fanteisio ar arddull dysgu ac addysgu arloesol sy'n seiliedig ar brosiectau'r Academi.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae myfyrwyr yr Academi wedi cefnogi amrywiaeth o brosiectau gyda chleientiaid yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, Trafnidiaeth Cymru, Canolfan Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd a Fujitsu.

Mae'r myfyrwyr hefyd wedi ystyried nifer o ddatrysiadau gofal iechyd gan gynnwys apiau sy'n caniatáu i gleifion canser dreulio mwy o amser gartref, yn ogystal â defnyddio roboteg i gynorthwyo'r rhai sy'n dioddef o ddementia ac unigrwydd.

Croesawodd yr Academi ei charfan gyntaf o fyfyrwyr ôl-raddedig i'r Academi ym mis Medi 2018. Mae'r radd MSc newydd mewn Peirianneg Meddalwedd wedi bod yn boblogaidd, gyda chynnydd mewn ceisiadau ar gyfer y nifer a dderbynnir ym mis Medi 2019. Mae'r Academi yn edrych ymlaen at adeiladu ar brofiad y garfan gyntaf yn y blynyddoedd i ddod.

Mae Prifysgol Caerdydd yn bartner yn y Sefydliad Codio sydd wedi'i sefydlu gan Lywodraeth y DU i hyrwyddo sgiliau a gyrfaoedd digidol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Brifysgol wedi gweithio gyda nifer o ysgolion yng Nghasnewydd i sefydlu clybiau codio ac mae'n awyddus i barhau â gwaith yn y gymuned leol yn y dyfodol.

Tu fewn i Academi Feddalwedd Genedlaethol Prifysgol Caerdydd yng Ngorsaf Wybodaeth Casnewydd



Arbedwch amser
Ewch ar-lein

Adrodd, Gofyn, Talu ac Olrhain
Gwasanaethau'r Cyngor ar unrhyw adeg
www.newport.gov.uk

Save time
Go online

Report, Request, Pay & Track
Council services at any time
www.newport.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

CYNGOR I LOFNODI SIARTER MARW I WEITHIO CYNGRES YR UNDEBAU LLAFUR

Mae ymrwymiad i gefnogi cyflogeion sydd â salwch angheuol wedi cael ei ddatgan gan Gyngor Dinas Casnewydd trwy gefnogi ymgyrch Marw i Weithio CULI.

Fe wnaeth arweinydd y cyngor, y Cynghorydd Debbie Wilcox, yr adduned ar ran y cyngor yn y cyfarfod cabinet ym mis Ebrill.

Mae CULI yn galw ar gyflogwyr ledled y DU i lofnodi'r siarter a chytuno i beidio â diswyddo unrhyw gyflogai sydd wedi derbyn diagnosis angheuol.

Er mwyn bodloni gofynion y Siarter mae'r cyngor yn ymrwymo i sawl cam gweithredu, gan gynnwys adolygu ei bolisi tâl salwch ac absenoldeb salwch i gynnwys datganiad penodol na fydd unrhyw gyflogai sydd â diagnosis angheuol yn cael ei ddiswyddo oherwydd eu cyflwr.

Bydd gweithdrefnau hefyd yn cael eu rhoi ar waith i greu rhaglen gymorth i gyflogeion gyda'r nod o gynnig cymorth a chaniatáu mynediad at gwnsela a chyngor ariannol.

Drwy arwyddo'r Siarter mae Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn cytuno i ddarparu hyfforddiant i reolwyr llinell a staff adnoddau dynol fel y gellir rhoi cynlluniau ar waith fel bod cyflogai sydd â diagnosis o salwch angheuol yn gallu cael addasiadau i'w trefniadau gwaith yn ôl yr angen.

Bydd manylion y cyngor wedyn yn cael eu hychwanegu at wefan yr ymgyrch ochr yn ochr â manylion awdurdodau lleol eraill o Gymru gan gynnwys Caerffili, Caerdydd, Sir Gâr a Chastell Nedd Port Talbot.

Dywedodd y Cynghorydd Wilcox: *"Drwy lofnodi'r siarter Marw i Weithio rydym yn dangos ymrwymiad ein cyngor i gefnogi cyflogeion a'u teuluoedd yn ystod amseroedd o angen anodd iawn a pharchu dymuniadau cyflogai i beidio â chael ei ddiswyddo pan fydd yn derbyn diagnosis o gyflwr angheuol."*

DIGWYDDIADAU

THEATR GLAN YR AFON
01633 656656
www.newportlive.co.uk/**riverfront**

25 Mai
Opera Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno Don Pasquale
Dilynwch helyntion Don Pasquale yn y fersiwn newydd llawn hwyl hon o opera gomig glasurol Donizetti. Wedi'i gosod o fewn ac o gwmpas fan cebabs Pasquale, mae'n nodi hanes lledrithiau rhamantus hen lanc a'r cariadon ifanc sy'n fwy cyfrwys nag ef.

30 & 31 Mai
Ballet Cymru: Romeo a Juliet
Mae'r cwmni arobryn, Ballet Cymru, yn cyflwyno addasiad rhyfeddol o gampwaith Shakespeare, Romeo a Juliet.

21 Mehefin
Stori Simon a Garfunkel
Gan ddefnyddio ffotograffau taflun a deunydd ffilm gwreiddiol, mae'r dathliad hanner canrif hwn yn cynnwys band byw llawn sy'n perfformio'r holl ganeuon.

CAFFI GLAN YR AFON
23 Mai, 10am – 11.30am
Grŵp Gofalwyr
Ydych chi'n helpu i ofalu am rywun? Ymunwch â'r Cysylltwyr Cymunedol a gofalwyr eraill am baned a sgwrs unrhyw bryd rhwng 10am ac 11.30am

ORIEL GELF AC AMGUEDDFA CASNEWYDD
01633 656656
www.newport.gov.uk/**heritage**

Tan 2 Gorffennaf
Ydych chi'n cofio...?
Sgwrsiwch gydag un o'n gwirfoddolwyr a rhannwch eich atgofion o dyfu i fyny yng Nghasnewydd. Bob dydd Mawrth am 2pm yng nghroglofft yr amgueddfa.

THEATR DOLMAN
01633 263670
www.dolmantheatre.co.uk

24-25 Mai
Seussical Jnr
Mae'r Mini Venture Players yn dwyn yn fyw eich hoff gymeriadau Dr. Seuss yn y sioe gerdd hon lle mae pwerau cyfeillgarwch, teyrngarwch, teulu a chymuned yn cael eu herio ond yn ennill y dydd yn y pen draw!

11-15 Mehefin
Things We Do For Love
Mae'r Newport Playgoers Society yn cyflwyno comedi Alan Ayckbourn am gariad a pherthnasoedd.